# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 3ydd Chwefror 2022 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

Yn bresennol: Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Robert Davies, Arwel Jones, John Lumley, Gwyndaf Morgan ac Alwen Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**480 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Helen Evans a Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**481 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Ionawr 2022, yn amodol ar gofnodi fod y Cyngor wedi trafod cynlluniau Pwyllgor Neuadd Bentref Ciliau Aeron i gyllido llawr newydd ar gyfer y lle chwarae.

**482 Materion y Codi o'r Cyfarfod**

a) Lle chwarae Neuadd Bentref Ciliau Aeron: nodwyd fod Pwyllgor y Neuadd yn mynd i ofyn am dri pris ar gyfer y gost o osod llawr 'anti-slip' ac y gallai
b) Gofynwyd i'r Clerc ddilyn i fyny y canlynol gyda'r Cyngor Sir:

- cais y Cyngor am arhosfan bws 'flag and pole' ar Sgwâr y Graig
- ail-osod arwydd 40 mya ar yr A482 i'r gogledd o Giliau Aeron.
- llifogydd ar ffyrdd mewn gwahanol leoliadau
- angen ail-osod yr arwydd 'road narrows' ger Felin Tyglyn

**483 Adeilad Ysgol Cilcennin / Cynllun Grant LEADER y Cyngor Sir**

Cytunwyd anfon yr ateb a dderbyniwyd oddi wrth Cynnal y Cardi ynghylch gais y Cyngor am bosibilrwydd o grant LEADER i Cilcennin Cyntaf i ddilyn i fyny.

**484 Menter Tafarn y Dyffryn**

Nodwyd fod y tystysgrif ar gyfer cyfranddaliad y Cyngor wedi'i dderbyn a chafwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol.

**485 Mynwent Eglwys Cilcennin**

Nodwyd fod Awdurdaodau'r Eglwys wedi trefnu bod eu Asiantwyr, Cooke and

Arkwright yn ymweld â’r safle yn ystod y mis hwn.

**486 Etholiadau Llywodraeth Leol 2022**

Nodwyd y Gwybodaeth i Ymgeiswyr ac Asiantiaid ar Wefan y Cyngor Sir ac y byddai’n cael ei ddiweddaru’n gyson.

**487 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Canllawiau Drafft.**

Nodwyd y Canllawiau Drafft a gyhoeddwyd o dan darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**488 Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies ei fod yn trefnu i ‘arwyddion rhybudd - ceffylau’ yn cael eu gosod yng Nghilcennin a chytunwyd y lleoliadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:30pm